

“ Yn ddiweddar, mae CTheF wedi rhyddhau ffigurau masnach y DU ar gyfer 6 mis cyntaf 2023. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y ffigurau hyn yn fanylach.

Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes ”



O edrych ar 6 mis cyntaf 2023, mae ffigurau gan Defra yn awgrymu bod cyfanswm y gwartheg sy'n cael eu lladd 2% yn uwch na'r flwyddyn, tra bod cyfanswm y defaid sy'n cael eu lladd i fyny 4%. Er gwaethaf hyn, mae cynhyrchiant cig eidion a chig oen yn llai nag 1% yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt o ganlyniad i bwysau carcassau ysgafnach yn cael eu cyflwyno adeg y lladd.

Yn ôl data gan Kantar; mae chwyddiant prisiau groser wedi gostwng am ddau fis yn olynol - fodd bynnag, mae'r lefel yn


parhau i fod yn uchel ar 12.7% am y pedair wythnos hyd at 6 Awst 2023. Mae hyn yn parhau i gael effaith ar batrymau siopa defnyddwyr, gan fod llawer wedi bod yn estyn am gynhyrchion label eu hunain mewn archfarchnadoedd ac yn cyfnewid o fewn categorïau cig coch am ddarnau rhatach. Mae'r sector gwasanaethau bwyd hefyd wedi cael ei effeithio wrth i ddefnyddwyr gyfyngu ar eu hachlysuron bwyta allan mewn ymgais i arbed arian.

CIG EIDION

Mae data gan CTheF yn dangos bod cyfanswm y cig eidion a **allforiwyd** o'r DU yn ystod 6 mis cyntaf 2023 yn 65,300 tonnelli (i lawr 22% o'i gymharu â'r lefelau blwyddyn ynghynt), tra bod gwerth *cyfanswm* yr allforion wedi gostwng 10% i £287.4 miliwn. O fewn y cyfanswm hwn, gostyngodd nifer y cyfaint cig eidion ffres/wedi'i rewi o 22% ar y flwyddyn i 50,300 tonnelli. Mae llai o lwythi i Ffrainc a'r Iseldiroedd wedi cael effaith nodedig - fodd bynnag, mae Ffrainc yn parhau i gyfrif am bron i chwarter y llwythi a anfonwyd i'r UE. Iwerddon yw prif gyrchfan allforion cig eidion y DU o hyd, ac mae wedi derbyn 17,800 tonnelli o gig

eidion ffres/wedi'i rewi hyd yn hyn – bron 7% yn llai nag yn 2022. Gyda chynnyrch cig eidion ar y farchnad ddomestig 0.3% yn unig yn uwch na'r flwyddyn ar gyfer y cyfnod hwn, mae'n debygol mai prin yw'r cynnyrch sydd ar gael i'w allforio, ynghyd â llai o alw gan ddefnyddwyr yn Ewrop a phrisiau cryf am wartheg yn y DU yn effeithio ar gystadleurwydd ar lefel fyd-eang.

Cyfanswm y cig eidion a **fewnforiwyd** i'r DU yn ystod y cyfnod o 6 mis oedd 143,100 tonnelli. Mae hyn 5% yn llai na'r lefelau blwyddyn ynghynt, tra bod gwerth y mewnforion wedi cynyddu bron 2% i £754.7 miliwn. O edrych ar fewnforion cig eidion ffres/wedi'u rhewi; roedd cyfeintiau i lawr 7% (neu 7,700




tunnelli) ar y flwyddyn i 109,400 tonnelli. Iwerddon oedd y prif allforiwr o hyd, ac roedd yn cyfrif am dros 70% o'r holl lwythi, er gwaethaf ffigurau sy'n dangos bod cyfaint y cig eidion o Iwerddon wedi gostwng bron i 4% ar lefelau blwyddyn yn gynharach. Mae Bord Bia wedi adrodd bod gwartheg sy'n cael eu lladd yn Iwerddon y tu ôl i'r lefelau blwyddyn ynghynt sy'n awgrymu bod y cyflenwadau yn dynn.

CIG DEFAID

Cyfanswm y cig defaid a **allforiwyd** o'r DU yn ystod y cyfnod o 6 mis oedd 43,400 tonnelli fetrig – cynnydd o 16% ar y flwyddyn, tra bod *cyfanswm* y gwerth wedi codi 13% i £277.5 miliwn. Mae allforion cig defaid ffres/wedi'i rewi hefyd wedi perfformio'n dda gyda chynnydd o 14%, er bod cynhyrchiant cig oen ar farchnad y DU yn llai nag 1% yn uwch na'r lefelau flwyddyn ynghynt. O'r cynnyrch ffres/wedi'i rewi a allforiwyd hyd yma, roedd 94% o'r cyfaint i farchnadoedd yn yr Undeb Ewropeaidd, gyda Ffrainc a'r Almaen yn derbyn 2,500 tonnelli a 1,700

tunnelli ychwanegol, yn y drefn honno. Gan fod y cyflenwad yn y DU fel arfer ar ei uchaf yn ystod hanner olaf y flwyddyn, gallwn ddisgwyl i'r fasnach gref barhau.

Cyfanswm y cig defaid a **fewnforiwyd** i'r DU ar gyfer hanner cyntaf 2023 oedd 28,000 tonnelli – gostyngiad o 31% (neu 12,800 tonnelli) ar lefelau blwyddyn yn gynharach. Gwelwyd gostyngiad sylweddol o 33% mewn cynhyrchion a fewnforiwyd yn ffres/wedi'u rhewi hefyd gan fod bron 8,000 tonnelli yn llai o gig defaid wedi cael ei fewnforio o Seland Newydd yn ystod y cyfnod. Er gwaethaf y gostyngiad, roedd




llwythi o Seland Newydd yn cyfrif am bron i 60% o gyfanswm cyfaint y cig defaid ffres/wedi'i rewi. Mae newidiadau i alw defnyddwyr wedi effeithio ar dueddiadau mewnforio, tra bod llawer o'r cynnyrch o Seland Newydd ac Awstralia yn parhau i gael ei gludo i Tsieina.

PORC

Gostyngodd *cyfanswm* y porc a **allforiwyd** yn ystod y cyfnod yn sylweddol ar y flwyddyn - 23% i 151,800 tonnelli, tra bod gwerth y llwythi hyn yn £294.7 miliwn (i lawr 0.5% yn unig). Cofnododd cyfaint y cynnyrch ffres/wedi'i rewi a allforiwyd y dirywiad mwyaf o 40% o flwyddyn i ddim ond 64,000 tonnelli. Mae allforion yn is oherwydd crebachu parhaus buches foch y DU wrth i gost y gwerthoedd cynhyrchu

gynyddu i gynhyrchwyr yn y DU. Amlygir hyn hefyd yn ffigurau Defra, sy'n dangos bod cynhyrchiant porc yn ystod y cyfnod 6 mis wedi gostwng 13% ar y flwyddyn, sef 457,200 tonnelli.

Bu gostyngiad o 8% yng *nghyfanswm* y **mewnforion** porc yn ystod y cyfnod o 6 mis o ran cyfaint i 381,900 tonnelli, tra bod mewnforion cynhyrchion ffres/wedi'u rhewi wedi gostwng 3% (neu 5,500 tonnelli) ar y flwyddyn. Allforiodd yr Almaen bron i



11,000 tonnelli yn llai o gynnyrch i'r DU, tra derbyniwyd mwy o gyfaint o Wlad Belg a Denmarc.

Noder: mae 'cyfanswm cig eidion/cig oen/porc' yn cynnwys cynhyrchion ffres, wedi'u rhewi, eu prosesu ac offal.

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn dod i ben 19 Awst

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd 262.7c/kg. Roedd hyn:

- + 1.3c ar yr wythnos flaenorol,
- + 18.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 51.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 211.5c/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **467.4c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.9c ar yr wythnos flaenorol,
- 23.4c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 449.8c/kg (+1.3c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 441.9c/kg (-4.1c), a buchod difa ar 309.8c/kg (-3.2c).

Trwybwn – Gorffennaf 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 220,400 pen – gostyngiad o 3% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 166,000 pen - i lawr 2% ar y flwyddyn.
 - bustych +2%, heffrod +1%, a theirw ifanc +3%.
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 343.4kg (-1.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 48,300 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn dod i ben 19 Awst

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **252.6c/kg**. Roedd hyn:

- - 9.2c ar yr wythnos flaenorol,
- + 12.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 45.0c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 207.6c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£74.60/pen**. Roedd hyn:

- - £2.10 ar yr wythnos flaenorol,
- £5.60 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 580.7c/kg (+6.4c ar yr wythnos).

Trwybwn – Gorffennaf 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – i lawr 12% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 921,500 pen – i lawr 11% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcassau ŵyn cyfartalog = 19.6kg (-0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 119,300 pen – i lawr 23% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau – wythnos yn dod i ben 12 Awst

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **224.3c/kg**. Roedd hyn:

- + 0.1c ar yr wythnos flaenorol,
- + 24.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 56.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 168.1c/kg).


Trwybwn – Gorffennaf 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 810,700 pen – gostyngiad o 15% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 792,500 pen – i lawr 15% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcassau moch heb fagu cyfartalog = 88.1kg (+0.1kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 18,200 pen – i lawr 16% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant
Cig Eidion a
Chig Llo y DU
Gorffennaf '23

72,700 tonnelli
-3% b-a-f



Cynhyrchiant cig
defaid yn y DU
Gorffennaf '23

21,400 tonnelli
-13% b-a-f



Cynhyrchiant
porc y DU
Gorffennaf '23

72,400 tonnelli
-15% b-a-f

